



## Arholiadau mis Ionawr

Rydym wedi cyhoeddi ein penderfyniad y bydd asesiadau uned mis Ionawr ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, Llenyddiaeth Saesneg a TGCh yn cael eu canslo. Bydd asesiadau eraill a gynlluniwyd yn mynd rhagddynt.

Ar ôl gwrandao ar gynigion cynnar gan y Grŵp Cyngori ar Ddylunio a Chyflawni, mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi penderfynu y bydd asesiadau nad ydynt yn arholiadau (NEA) yn parhau i gael eu cynnwys mewn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer haf 2021.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#).

## Dathlu ein harwyr gofal cymdeithasol

Gallwch ail-fyw digwyddiad rhithwir arbennig a drefnwyd i ddathlu rhinweddau'r bobl sy'n gweithio yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant a myfyrio ar y cymwysterau lefel uwch newydd sbon a gyflwynwyd yn ddiweddar yng Nghymru.

Gyda'r flwyddyn yn cael ei dominyddu gan Covid-19, ni fu pwysigrwydd y sectorau allweddol hyn sy'n chwarae rhan hollbwysig yn ein cymunedau erioed yn gliriach.

Roedd y digwyddiad dathlu yn cynnwys Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r GIG, ac roedd yn cynnwys negeseuon arbennig gan y dirprwy weinidog dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â staff rheng flaen. Os gwnaethoch ei fethu pan gaiff ei ddarlledu'n fyw, gallwch weld yr holl ddigwyddiad ar ein sianel [YouTube](#).



## Rhannwch eich barn am y cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol newydd

Unwaith eto, rydym yn gwahodd dysgwyr, athrawon ac aseswyr i rannu eu barn am y cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant newydd i Gymru. Bydd yr adborth a roddwch yn helpu i lywio ein gwaith o fonitro'r cymwysterau hyn.


Byddwn yn cynnal holiaduron byr ar-lein ar gyfer cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant Lefel 2 a Lefel 3 yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cynnal holiaduron ar wahân ar gyfer cymwysterau lefel 4 a lefel 5.

Mae'r holiaduron ar agor ar-lein nawr a dim ond tua phum munud y dylent eu cymryd i'w cwblhau. Gallwch ddod o hyd iddynt [yma](#).

## Adroddiad Blynyddol

Mae ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf yn cynnwys manylion am sut rydym wedi cyflawni llawer o brosiectau blaenllaw er budd dysgwyr yn ystod y flwyddyn eithriadol hon. Yn ogystal ag ymdrin ag effaith pandemig y coronfeirws, canolbwyntiwyd ar adolygu'r cymwysterau sydd ar gael mewn sawl sector cyflogaeth, gan gynnwys adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, peirianeg, gweithgynhyrchu uwch, ynni a thechnoleg ddigidol. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad o Dystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru.

Gallwch ddarllen yr adroddiad blynyddol [yma](#).



## Astudiaethau achos Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi bod yn siarad â chyflogwyr am sut y bydd y gyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig o fudd iddynt hwy a'r diwydiant. Gallwch ddarllen ein hastudiaethau achos [yma](#).

# Adroddiad Cynnydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Y mis hwn, rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar sut rydym wedi dewis mabwysiadu darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallwch ddarllen ein hamcanion a'n hadroddiad cynnydd [yma](#).

## Arolwg am ein gwefan

Rydym yn awyddus i wneud rhai newidiadau i wella ein gwefan ymhellach ac mae angen eich adborth arnoch. Cliciwch [yma](#) i gymryd rhan yn ein harolwg tri munud cyflym.

## Effaith COVID-19 ar arholiadau ac asesu yng Nghymru – sesiwn Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd

Ar 12 Tachwedd, ymunodd ein Prif Weithredwr, Philip Blaker, Cadeirydd y Bwrdd, David Jones DL OBE a Chyfarwyddwr Gweithredol Rheoleiddio, Jo Richards, â Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd i drafod effaith COVID-19 ar arholiadau ac asesu yng Nghymru. Gallwch wylio recordiad o'r sesiwn [yma](#).

## Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Y dewis cywir i Gymru

Ddiwedd 2019, ymgynghorwyd ar ein dull o gytuno sut y dylai cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed newid yn y dyfodol. Gan adeiladu ar yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ymgynghori ym mis Ionawr 2021 ar;

- yr ystod o bynciau a ddylai fod ar gael fel TGAU yn y dyfodol;
- pa gymwysterau eraill a wnaed ar gyfer Cymru ddylai fod ar gael ochr yn ochr â TGAU.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Yn ystod yr ymgynghoriad, rydym am glywed ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn addysg pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr, rhieni, gofalgwyr, darparwyr dysgu a chyflogwyr. Ewch i'n [gwefan](#) yn y Flwyddyn Newydd i chwilio am ddiweddariadau ar sut i ymateb. Bydd eich mewnbwn yn hanfodol ar gyfer rhoi gwybod i ni am y dewis cywir i Gymru.

## Athrawon, allwch chi helpu?

Rydym wedi comisiynu Beaufort Research, cwmni ymchwil annibynnol, i gynnal ymchwil ansoddol ar draws ystod eang o randdeiliaid yng Nghymru. Mae angen i ni ddiweddarau ein dealltwriaeth o farn rhanddeiliaid ar gymwysterau, eu hyder yn y system gymwysterau a'u barn ar Cymwysterau Cymru.

Mae athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol yn grŵp allweddol rydym am ymgynghori ag ef fel rhan o'r gwaith. Mae hwn yn gyfle gwych i rannu gyda Beaufort, yn gyfrinachol, eich barn bersonol ar y pynciau hyn. Bydd y canfyddiadau'n ein helpu i wella a chynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan, anfonwch e-bost i [enquiries@beaufortresearch.co.uk](mailto:enquiries@beaufortresearch.co.uk) i gael gwybod mwy. Cynhelir y cyfweiliadau manwl ar-lein neu dros y ffôn rhwng nawr a mis Ionawr 2021.

## Cymwysterau Cymru a CBAC i gynnig rhaglen o weminarau ar gyfer athrawon TGAU Amgylchedd Adeiledig

Mae Cymwysterau Cymru yn falch o fod wedi cymeradwyo cymhwyster newydd TGAU Amgylchedd Adeiledig CBAC a fydd ar gael i'w gyflwyno o fis Medi 2021.

Dyluniwyd y cymhwyster er mwyn cyflwyno dysgwyr i'r amgylchedd adeiledig, a datblygu eu dealltwriaeth ohono, gan gynnwys y crefftau a'r rolau sydd ynddo, yr offer, y technolegau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth ei adeiladu a'i gynnal a'i gadw, a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'i ddylunio.

Er mwyn cefnogi canolfannau i baratoi ar gyfer darparu'r cymhwyster hwn, cyn bo hir bydd Cymwysterau Cymru yn rhannu manylion rhaglen o weminarau er mwyn i ymarferwyr gynnig safbwyntiau'r diwydiant ar gynnwys y cymhwyster TGAU newydd a gefnogir gan CBAC. Bydd y gweminarau hyn yn cychwyn fis Ionawr 2021 a byddant yn cael eu cynnal yn fisol hyd at haf 2021. Byddwn yn rhannu mwy o fanylion, trwy ein gwefan ac yn uniongyrchol â chanolfannau ddechrau mis Rhagfyr.

### Ystadegau

Dyma ein hystadegau diweddaraf:

[Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 \(Gorffennaf-Medi\) 2020 ar gyfer Cymru](#)

[Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academiaidd 2019/20](#)

[Dadansoddiad Effaith Cydraddoldeb Haf 2020 TGAU, UG, a Safon Uwch](#)

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

**The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector**  
**Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg**

You can follow us on social media for the latest news on our work:  
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



**Contact us:**

[comms@qualificationswales.org](mailto:comms@qualificationswales.org)

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.